Cofnodion Cyngor yn y Ganolfan nos Iau Medi 11 2014 am 7:00 o'r gloch
Presennol: E.R.Noble, J.Houston, Liz Roberts, Teleri W Jones, T.Jones, M.Skerrett, A.Fawcett.
Ymddiheuriad: C.Roberts, M.Chapman, C.Brewer.
Gweddi. Arweinwyd mewn Gweddi gan y Cadeirydd.

Cofnodion Cadarnhawyd cofnodion Cyngor 3.7.2014, cynnig J.Houston, cefnogi Teleri W.Jones.

Yr Heddlu. Derbyniwyd atebiad manwl oddiwrth P.Gales yn egluro llawer ynglŷn â sut mae'n mynd ati i geisio Plismona'r ardal, mae wedi ymweld â'r ardal yn gyson yn ddiweddar.

Yr A470. Atebiad gan I.Tegid yn cadarnhau y bydd arolwg manwl, buan o gyflwr y ffordd a'r arwyddion yn ardal Pont Bertheos yn cymryd lle. G.Roberts, Gorddinan wedi cael profiad o'r gor-yrru yma yn ddiweddar a'r Clerc wedi adrodd am hyn. Liz Roberts ar ddeall y bydd arwyddion newydd yn cael eu gosod yno yn fuan. Damwain wedi digwydd ar dro Granllyn hefyd.

Cyngor Sir. Cadarnhaodd y Clerc fod K.Jones o Swyddfa'r Cyngor yn Llanrwst wedi ymateb yn brydlon i gais i gael clirio'r 'ragwort' yn yr ardal. Clerc i ofyn iddo gael golwg ar gyflwr y gwrych ar gyfer 5 a 6 Maes y Braich

Yr Orsaf. Y mater o osod arwyddion 20mya ger ysgolion wedi'i gyflwyno at bwyllgor 'task & finish' Cyngor Conwy – pob achos i gael ei drafod ar wahan. Clerc i anfon llythyr at Neil Chapman i ddiolch iddo am osod arwydd newydd yn yr Orsaf.

Menter Siabod. Cadarnhaodd Teleri W Jones fod Diwrnod Hwyl wedi cael ei drefnu ar gyfer dydd Sadwrn Medi 27 gyda llawer o weithgareddau yn cymryd lle.

Cynllun Ynni Dŵr. Deallwyd gan M.Skerrett fod problem gyda costau cysylltu'r cynllun i'r grid cenedlaethol, oes modd rhannu hyn gydag eraill, trafodaethau yn parhau.

Llwybrau. P.Rutherford yn cadarnhau fod y gytundeb gyda'r Parc Cenedlaethol yn parhau. D.Roberts o Swyddfa'r Cyngor, Llanrwst i drefnu fod yr arwydd ger Bertheos i gael ei ail osod. Clerc i anfon at V.Currie i gael gwaith ar hyd llwybyr cul.

Y Fynwent. Clerc wedi cael gair gyda'r Gofalwr, cytunai fod angen torri gwair yn y Gofgolofn yn amlach na'r hyn sydd yn ofynnol yn y gytundeb, cytunwyd y dylid trafod y gofynion yn fanwl ar gyfer y tymor nesaf, torri'r gwair yn y Gofgolofn 2 waith y mis o bosibl?

Ariannol. Cadarnhaodd y Clerc y balansau cyfredol a dosbarthodd daflen yn nodi'r manylion.

Japanese Knotweed. Bydd Gary Edwards yn gweithio ar y safle eto yn yr Hydref.

Gwefan. N.Ferguson wedi bod yn tynnu lluniau o'r ardal ar gyfer eu cynnwys ar y wefan.

Hanes yr Ardal. Medwen Roberts o Danygrisiau i alw gyda'r Clerc i drafod y prosiect a'r costau.

Y Rhyfel Byd Cyntaf. Roedd y Gwasanaeth Cofio ger y Gofgolofn ar Awst 22 yn arbennig iawn gyda chynrychiolaeth leol dda yno, diolchwyd yn gynnes i C. Brewer a Liz Roberts am drefnu.

Y Pafiliwn. Cadarnhaodd Liz Roberts mae y flaenoriaeth oedd sicrhau cyllid ar gyfer swydd Michelle a'u bod yn gweithio'n galed gyda hyn. Y nôd yw helpu pawb yn yr ardal yn unigolion a mudiadau, mae'n rhaid iddynt godi ymwybyddiaeth o'r hyn sydd ar gael yn y pafiliwn.

Trafodwyd sut gallai'r Cyngor Cymuned helpu, buasai codi'r Archeb yn opsiwn ond os oedd hynny yn digwydd buasai'n rhaid gadael i'r ardalwyr wybod beth oedd y sefyllfa a beth oedd y defnydd oedd yn cael ei wneud gyda'r arian. Cytunwyd y dylid cael adroddiad gan y cynrychiolwyr pan fydd y manylion ganddynt yna gellir trafod y sefyllfa eto.

Cynlluniau.
Caedu – Wedi eu caniatau
Tanaeldroch – Dim gwybodaeth.
Codi'r Cymal 106 ar 2 dŷ Rathbone Terrace – Apêl wedi'i chyflwyno
Cais ôl-weithredol Gorsaf Ddarlledu Arqiva ar gyfer cadw offer – Dim gwrthwynebiad
Bodegroes – Wedi eu gwrthod ond cais arall wedi'i gyflwyno
Breffni – Wedi eu caniatau
Tyn Coed – Dim gwrthwynebiad i gais ôl weithredol i newid i gwrtil domestig
Cais newydd
Gwyndy – Cais i ddiddymu sawl cymal o ganiatad cynllunio. Yr Aelodau yn teimlo nad oedd ganddynt yr arbenigedd i gynnig sylwadau a bod Richard Thomas eisoes wedi cynghori arno.

Biliau. Trafodwyd a chytunwyd i dalu'r biliau gyflwynwyd gan y Clerc, cynnig T.W.Jones, cefnogi Tecwyn Jones. Ail daliad yr Archeb o £2000 wedi ei derbyn oddi wrth Cyngor Conwy.

Cŵn yn baeddu. Y Warden cŵn wedi galw yn yr ardal a chyflwyno adroddiad, Liz Roberts wedi trafod â rhai oedd yn cwyno'n lleol, o'r diwedd mae Liz wedi llwyddo i gael nodi'r ardal fel ardal 'hot spot' felly bydd yn cael sylw arbennig, croesawyd hyn a diolchwyd iddi.

Materion trafnidiaeth. Atebiad gan I.Tegid ynglŷn â'r parcio hyd Castle Terrace, roedd ganddo awgrymiadau ond roedd angen rhagor o wybodaeth. Dywedodd Teleri Jones fod gwelededd o'r Sgwar i fyny'r allt yn broblem, Clerc i ofyn i I.Tegid i ddod i'w gyfarfod yn y pentref. Dylid anfon at Gyngor Conwy ynglŷn â chael 'speed bumps' hyd Maes y Braich.

Gwobrau Chwaraeon. Derbyniwyd llythyr gan Rachel yn diolch am y rhodd, cytunwyd i'w henwebu ar gyfer gwobr chwaraeon Conwy.

Tai Tanrallt**.** Cadarnhaodd y Clerc ei fod wedi derbyn hysbyseb yn nodi fod 2 dŷ yn wâg.

Sedd Goffa. Llythyr gan H.Chapman yn gofyn am gyngor gan y Cyngor ar ran berson oedd yn awyddus i osod sedd yn yr ardal, Clerc i drafod â Helen.

Y Feddygfa. Sylw gan M.Skerrett fod llawer yn poeni am ddyfodol y feddygfa gan fod y Meddygon yn ymddeol yn y flwyddyn newydd, gan nodi diddordeb, dywedodd Liz Roberts fod Bwrdd Betsi Cadawaladr yn edrych i mewn i ffyrdd o ariannu Meddygon ar gyfer y practis.

Pont Penamnen. Teleri W Jones yn poeni am fod wyneb y bont newydd yn hynod o lithrig, Clerc i anfon at E.Stevens.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: Nos Iau Tachwedd 6 2014 am 7pm